Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad i'r wasg

3 Gorffennaf 2009

Pryderon wrth i nifer y disgyblion sy'n astudio Ieithoedd Tramor Modern barhau i ddisgyn

'Mae angen gwneud mwy i annog a chefnogi disgyblion i astudio ieithoedd tramor modern mewn ysgolion uwchradd ledled Cymru,' meddai Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mewn adroddiad a gyhoeddwyd heddiw, '*Gwella ieithoedd tramor modern mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru'*, mae arolygwyr yn amlygu'r ffaith y bu gostyngiad sylweddol yn nifer y disgyblion sy'n dewis astudio ieithoedd tramor modern ar gyfer TGAU o 41% (1999) i 28% (2007). Bu rhywfaint o ostyngiad ar lefel Safon Uwch hefyd.

Er bod safonau cyflawniad yn gyffredinol dda ar gyfer y rheiny sy'n parhau i ddilyn y cyrsiau hyn, mae'r bwlch cyrhaeddiad rhwng bechgyn a merched yn fwy nag ydyw mewn pynciau eraill, gyda merched yn cyflawni canlyniadau llawer gwell ar gyfartaledd.

Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg hwn, roedd safonau addysgu llawer uwch nag yn y rhan fwyaf o bynciau ac yn rhagorol ar adegau. Yn yr achosion hyn, mae'r disgyblion yn dangos gallu i ganolbwyntio, brwdfrydedd, hyder a pharodrwydd i gymryd rhan a 'rhoi cynnig arni', hyd yn oed pan fo'r gwaith yn anodd. Roedd y gwersi yn greadigol ac yn hwyl gyda strategaethau addysgu clir ar waith a luniwyd i herio disgyblion trwy ystod o weithgareddau. Roedd y disgyblion hefyd yn mwynhau dysgu a defnyddio'r iaith gyda strategaethau iaith da ac roedd ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o ramadeg.

Dywedodd Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi: “Mae’r adroddiad hwn yn dangos yn glir bod ansawdd yr addysgu yn hanfodol o ran datblygu safonau da ac annog disgyblion i astudio iaith dramor fodern.”

“Er bod rhywfaint o dystiolaeth o arfer dda ar waith mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru, mae angen gwneud mwy ar bob lefel i annog bechgyn a merched fel ei gilydd i astudio ieithoedd tramor modern.”

Mae’r arolygiaeth yn galw ar ysgolion uwchradd ledled Cymru i wella safonau trwy:

- ddarparu o leiaf 2 awr yr wythnos yng nghyfnod allweddol 3,
- trefnu cydweithio gwell rhwng yr adrannau Cymraeg, Saesneg ac Ieithoedd Tramor Modern,
- darparu cyfleoedd i athrawon arsylwi arfer dda a mynychu cyrsiau hyfforddi; a
- hyrwyddo ieithoedd tramor modern i rieni a disgyblion, fel ei gilydd.

Hefyd, dylai awdurdodau lleol ddarparu cyngor a chymorth arbenigol i ysgolion i’w helpu i godi safonau, yn ogystal â threfnu i arbenigwyr ymweld ag adrannau i arsylwi technegau addysgu.

Mae’r arolygiaeth hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gydweithio â chyrff dyfarnu er mwyn sicrhau bod mwy o elfennau ieithoedd tramor yn cael eu cynnwys mewn cyrsiau galwedigaethol, parhau i annog a chefnogi’r gwaith o ddatblygu ieithoedd tramor modern mewn ysgolion cynradd trwy ei rhaglen beilot lwyddiannus a pharhau i hyrwyddo cysylltiadau ysgolion â gwledydd tramor, yn ogystal â pharhau i hwyluso gwaith CILT Cymru i gefnogi ieithoedd tramor modern.

I ddarllen yr adroddiad cyflawn, ewch i wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk

-DIWEDD-

Am ymholiadau gan y cyfryngau, cysylltwch â’r:
Adran Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata:
Ffôn: 02920 446454
Allan o’r swyddfa: 02920 446454
E-bost: cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk

Mae cyfweliadau ar gael gydag awdur yr adroddiad, Steffan James (AEM) a Dr Bill Maxwell.

Nodiadau i Olygyddion:

Yr arolwg

- Comisiynwyd adroddiad Estyn '*Gwella ieithoedd tramor modern mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru'* gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae ar gael yn ei gyfanrwydd yn www.estyn.gov.uk
- Anfonwyd holiadur at fwy na 50 o ysgolion uwchradd, y dewiswyd bron pob un ohonynt am eu niferoedd uchel yng nghyfnod allweddol 4 neu am fod ganddynt lawer o arferion da. Cafwyd atebion gan oddeutu dau draean o'r ysgolion hyn a dadansoddwyd eu hymatebion. Hefyd, ymwelodd AEM â 14 o'r ysgolion hyn i arsylwi gwersi ac i siarad ag athrawon a disgyblion. Anfonodd Estyn holiadur at y 22 awdurdod lleol yng Nghymru hefyd i ofyn am y modd y maent yn cefnogi ieithoedd tramor modern. Cafwyd ymatebion gan bob un ohonynt a dadansoddwyd yr ymatebion hyn. Anfonwyd holiadur arall i'r pedwar sefydliad sy'n cynnig hyfforddiant cychwynnol i athrawon yng Nghymru ar gyfer athrawon ieithoedd tramor modern. Anfonodd pob un o'r sefydliadau hyn ymateb.

Am Estyn

- Estyn yw'r arolygiaeth dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn comisiynu arolygwyr annibynnol (arolygwyr cofrestredig, arolygwyr tîm ac arolygwyr lleyg) ac Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant i gynnal arolygiadau ar draws yr ystod lawn o ddarparwyr addysg a hyfforddiant.

- Mae Estyn yn arolygu ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau), ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig, ysgolion annibynnol, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau cymorth ieuenctid, awdurdodau addysg lleol, addysg a hyfforddiant athrawon, dysgu yn y gwaith, dysgu troseddwyr, cwmnïau gyrfaoedd, ac elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.